

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Gwyneth Griffiths (Llansannan) a'r teulu yn dilyn marwolaeth tad Gwyneth ddechrau'r wythnos. Cyflwynwn y teulu oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y cânt adnabod ei heddwch a'i dangnefedd.
- Parhawn i gofio am Glyn Jones (Nantglyn) yn Ysbyty Glan Clwyd a gweddiwn ei fod yn adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drosto. Llwenydd yw cael adrodd fod Elwy Owen (Llanefydd) wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Danfonwn ein cofion ato yntau, gan weddio y bydd yn cryfhau ac yn adnabod daioni Duw yn ei amgylchynu.
- Llongyfarchiadau i Owain a Rhiannon Evans (Henllan) ar enedigaeth mab, Rhys Llywelyn. Dymunwn fendith Duw arnynt fel teulu.
- Croeso'n ôl i Menna Owen (Cefn Meiriadog) sydd wedi cael dychwelyd i'r Hen Ddeondy erbyn hyn yn dilyn y llifogydd. Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal a chyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd – Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr R. J. Davies (Amber House); Mrs Morfydd Williams (Southern House); a Mrs Mair Roberts (Yr Hen Ficerdy).

I ddod

- Bydd yr ail gyfarfod i drefnu **Pabell yr Eglwys yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych** dan ofal Cytûn yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog nos Iau, Ebrill 18fed am 6.00. Croeso i unrhyw un sydd â diddordeb.
- Cynhelir **Noson Gymdeithasol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Festri Capel Mawr, Dinbych nos Iau, Ebrill 18fed am 7.30. Y wraig wadd fydd Mrs Nia Royles. Croeso cynnes i bawb.
- **Sasiwn Chwiorydd y Gogledd** yng Nghapel Bethesda, Yr Wyddgrug, dydd Mawrth, Mai 7fed.
- **Darlith ar Thomas Jones, Dinbych ac achos yr Efengyl yn yr ardal** nos Iau Dyrchafael, Mai 9fed yn Festri Llansannan am 7.30 gydag Andras Iago yn darlithio.
- Taith Haf 2013 y mudiad Care for the Family – **“Getting your kids through church without them ending up hating God”** yng nghwmni Rob Parsons yn Eglwys Sure Hope, Bae Colwyn nos Fawrth, Mehefin 4ydd am 7.30. Tocynnau £5.
- **Diwrnod Genod** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 14eg–15fed. Nos Wener: Cath Woolridge & SOW – noson o gerddoriaeth, tystiolaeth a chymdeithas. Dydd Sadwrn: Diwrnod i ymlacio, mwynhau cymdeithas ac i ddyngu am yr Iesu yng nghwmni Sarah Morris. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu** yn dathlu 60 ar Mehefin 24ain–26ain yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL / E bost: geraint.w.jones@btinternet.com am fwy o wybodaeth.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7^{fed} Ebrill 2013

Darlleniad y Dydd

Deuteronomium 10:12–15
(BCND tud.172 / BCN: tud.157)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso i oedfaon y dydd! Yn ystod yr wythnos cynhaliwyd Gŵyl Llanw 13 yn Ninbych y Pysgod. Gŵyl sy'n dathlu atgyfodiad Iesu ydi hi ac mae hi'n gyfrwng bendith nerthol yn llaw Duw. Mae pawb sy'n mynd yno'n eiddgar am gael profi Duw yn agos ac am gael dod i adnabod yr Arglwydd, ond fe fydd yn anodd iawn mynegi dyfnder y profiad a gafwyd i ni na fuom yno. Fe fyddaf yn meddwl yn aml am brofiad Pedr a'r apostolion eraill yn rhannu gwefr y foment y cawsant weld Iesu ar ôl ei atgyfodiad a chael siarad hefo fo, rhannu sgwrs a chyd-fwyta fel o'r blaen! A dwi'n rhyfeddu at y ffordd y maent wedi rhannu'r profiad yna hefo ni er pa mor anodd oedd hi, mae'n siŵr, i hwythau fedru mynegi dyfnder y profiad.

Dyma oedd profiad Pedr: neidio allan o'i gwch pysgota i fynd i gyfarch Iesu ar y traeth! (Ioan 21:7).

Dyma oedd profiad dau ar y ffordd i Emaus: cael adnabod Iesu wrth iddo dorri'r bara ac wrth i'w calonnau doddi wrth iddo 'agor yr ysgrythyrau' iddynt (Luc 24:31,32).

A dyma brofiad miloedd ar ddydd y Penetcost wrth wrando ar Pedr: gweiddi mewn edifeirwch “Beth a wnawn ni?” Ac ymateb i ateb Pedr “Edifarhewch a bedyddier pob un yn enw Iesu Grist ...” (Actau 2:38).

Dyma sut y mae'r eglwys yn tyfu erioed – pobl yn caru Iesu uwchlaw popeth yn eu bywyd pob dydd. Pobl yn cynhesu tu mewn wrth ddarllen y Beibl, wrth iddynt weld Iesu a dyfnhau eu hadnabyddiaeth ohono. Pobl yn edifarhau ac yn derbyn enw Crist arnynt heb fod â chywilydd o'i enw! Pobl yn dod, yng Nghrist, o farw'n fyw! A phobl yn cyd-gyfarfod i'w addoli ac yn byw iddo uwchlaw pob peth. Dyma sut y mae'r Eglwys yn tyfu.

Er fod rhannu dyfnder ac arwyddocad y profiad o adnabod Crist mor anodd, y mae'n rhyfeddol sut y mae Cristnogion eraill yn gallu uniaethu hefo'r profiad er pa mor anheilwng ydym a pha mor annigonol yr ydym yn ei deimlo wrth ddweud am ein profiad! A dyna sydd yn braf wrth i ni gael yr hanes – hanes y fendith, hanes y profiad – fe fydd ein calonnau ninnau'n cynhesu wrth glywed am weithredoedd Duw a gwaith yr Ysbryd. Edrychwn ymlaen at gael rhannu ein profiad o bresenoldeb a bendith Duw felly heddiw wrth i ni gyd-gyfarfod a diolchwn am ei ffyddlondeb a'i ras tuag atom.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sul – Gwener • **New Word Alive** ym mharc gwyliau Prestatyn Sands, Prestatyn LL19 7LA. Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: www.newwordalive.org
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mercher • Grwpiau Tai **Adnabod** yn cyfarfod.
- Iau • **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn • **Gweithdai Caneuon Cymraeg** ar gyfer addoliad cyfoes yn y Bala o 10.00 – 4.00. Cysylltwch ag Andy Hughes (01678 530347 / saintygymuned@btinternet.com) i gofrestru a chael manylion y man cyfarfod.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 ac fe fydd yr eglwys yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid. Bydd Cyfarfod Gweddi hefyd yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Mawrth Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Arawn Glyn yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Trebor Roberts yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00..

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Mercher Bydd Cymdeithas Henllan yn cyfarfod am 7.30 pan fydd Rhys Dafis, Llansannan yn rhoi sgwrs ar fynydda.
- Sul nesaf Trefniant 'Adnabod Dawn' fydd yn Henllan heddiw gyda Dafydd Timothy yn arwain yr oedfa am 10.30 a bydd cinio i ddilyn i godi arian tuag at y Sasiwn Genhadol a phabell Cytûn yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. R W Jones yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00 ac yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddirchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau